

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd ar Rhagfyr 21ain
2016 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council meeting held on 21st December 2016
at 7.00pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd), Maldwyn Williams, Dafydd Pritchard, Geraint Parry (Clerc) a Carwyn Jones

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng./Clr. Myrddin Roberts a Alwena Roberts. Cyng. Mark Williams wedi penderfynu ymddiswyddo / *Clr. Mark Williams has decided to resign.*

3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest

- Cyng. R Hughes ar drafodaeth cais cynllunio Llygaid y Rhos a thrafodaeth Pwyllgor y Neuadd / *Clr. R Hughes on the on the discussion on Llygaid y Rhos planning application and on the Village Hall Committee discussion.*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 ddeg o Dachwedd fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. M Williams. / *Minutes of the previous meeting held on 16th of November were accepted as accurate by Clr. D Pritchard, seconded by Clr. M Williams.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Llwybr Tai Bach/ Tai Bach footpath** - Ymchwiliad lleol yn mynd i gael ei gynnal gan Yr Arolygiaeth Cynllunio ar 6/06/17 am 10 o'r gloch yn Neuadd y Pentre'. Mae'r ymchwiliad wedi ei amserlennu i bara 3 diwrnod / *Local inquiry is going to be held by the Planning Inspectorate on 6/06/17 at 10am in the Village Hall. The inquiry is scheduled to last 3 days.*
- 5.2 **Llygaid y Gwynt (05/16)** - Cyng. DP wedi trafod y mater gyda'r perchennog. Angen cadw golwg ar y sefyllfa. Cyng. MW yn awgrymu bod angen polisi ar gyfer materion o'r fath. / *Clr. DP has discussed the mater with the owner. Need to monitor the situation. Clr. MW suggested that we need a policy for such issues.*
- 5.3 **Diffibrilwyr / Defibrillators** - Pwyllgor y Neuadd yn gwneud cais trwy Grant Ward Seiriol / *Village Hall Committee are applying via the Seiriol Ward grant*
- 5.4 **Cloddiau wedi gôr dyfu hyd lôn Hafodty / Hedges on Hafodty road** - nawr wedi cael ei dorri / *have now been cut.*
- 5.5 **Arolwg ciosg gan BT / BT Kiosk Survey** - Clerc wedi gwneud cais i fabwysiadu'r ciosg gyferbyn ar dafarn / *Clerk has submitted an application to adopt the kiosk opposite the pub.*
- 5.6 **Lôn Glanrhyd / Glanrhyd lane** - Cyngor Sir wedi cytuno i godi arwydd "Anaddas i Gerbydau llydan" ger ochr y brif lôn trwy'r pentref ar ddechrau'r lôn gul sy'r arwain i'r tai / *County Council has agreed to erect a sign "Unsuitable for wide vehicles" at the side of the main road through the village at the start of the narrow lane leading to these houses.*
- 5.7 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - wedi derbyn amcangyfrif ar gyfer y gwaith. Clerc i gael mwy o wybodaeth. / *Received an estimate cost for the work. Clerk to obtain further information.*
- 5.8 **Person gydag argyhoeddiad rhywiol / Person with sexual conviction** - wedi derbyn ateb gan Adran Tai o'r Cyngor Sir - nid ydynt yn gallu rhannu gwybodaeth am unrhyw denant ac nid ydi wedi torri un o gymalau gytundeb tenantiaeth / *Person with sexual conviction - received a reply from the County Council Housing department - they are unable to disclose any information regarding any tenants and has not broken any tenancy agreement.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr/Report by the County Councillor-Carwyn Jones

- Wedi pwysleisio'r Cyngor Sir i gyfarfod gyda Pwyllgor y Neuadd / *Have emphasised to the County Council to meet with the Village Hall committee.*
- Dilyn gwaith ail-wynebu ger Ffordd Deg Bach, mae'r Cyngor Sir bellach wedi rhoi marciau lawr y ffordd. / *Following the resurfacing work by Ffordd Deg Bach, the Council have now put road markings down*
- Wedi derbyn nifer o gwynion gan breswylwyr yn dilyn cyflwyno'r cynllun ailgylchu newydd / *Have received a number of complaints from householders following the introduction of the new re-cycling scheme*
- Bws Arriva - wedi derbyn cwyn nad oedd y gwasanaeth wedi mynd i Maes Gwyn / *Arriva Bus - received a complaint that the service did not go to Maes Gwyn.*
- Wedi anfon llythyr yn cefnogi cynllun Cwlwm Seiriol. / *Have sent a letter of support to Cwlwm Seiriol project*

- Grant Seiriol – grant o £10k ar gael, ceisiadau i'w cyflwyno erbyn 16/01/17 / *Seiriol Grant - £10k available, applications to be submitted by 16/01/17*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

- 22C189F/DEL – cais o dan adran 73 i dynnu amod 15,16,17 o caniatad cynllunio 22C189A a 22C189C/DA – dim gwrthwynebiad / *Application under section 73 for the removal of condition 15,16,17 from planning condition 22C189A and 22C189C/DA on land adjacent to Glangors, Llanddona – no objection*
- 22C39E – cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi shed amaethyddol – dim gwrthwynebiad / *Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed on land at Llygaid y Rhos – no objection*
- 22C186B - cais amlinellol ar gyfer codi tŷ yn cynnwys manylion llawn am y mynediad ar osodiad ar dir cyfagos i - dim mewn sefyllfa i wneud penderfyniad, angen fwy o fanylion / *Outline application for the erection of a dwelling together with full details of access and layout on land adjoining Bryn Hyfryd, Llanddona - unable to make an observation, further information and details required.*
- 22C196D – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn – dim gwrthwynebiad/ *Full application for alterations and extensions at Cuddfan, Wern y Wylan, Llanddona – no objection.*

8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery

Dwr Cymru wedi agor draen i'r fynwent. Cyng. CJ - gobeithio trosglwyddo'r fynwent i'r Cyngor Cymuned yn y flwyddyn newydd. / *Welsh Water have opened a drain to the cemetery. Clr. CJ - hoping to transfer the cemetery to the Community Council in the New Year.*

9. Tir Comin/Common Land

- 9.1 Gwelfryn - dilyn ymweliad safle ar 20/11/16 penderfynwyd rhoi hawddfrait ychwanegol yn unol ar llun, ac i'r ymgeisydd dalu ein costau cyfreithiol. Clerc wedi cysylltu gydag ein cyfreithiwr. / *Gwelfryn - following a site visit on the 20/11/16, it was decided to grant an easement in line with the drawing provided, and for the applicant to pay our legal costs. Clerk has consulted with our solicitor.*
- 9.2 Derbyniwyd cadarnhad gan Swyddfa'r Gofrestrfa Tir fod cynllun teitl o dir cyfagos i Ysgol Gynradd Llanddona (Maes Parcio) CYM52763 wedi ei gofrestru i'r Cyngor Cymuned / *Received confirmation by the Land Registry Office that the title plan of land adjoining Ysgol Gynradd Llanddona (Car park) CYM52763 has been registered to the Community Council*

10. Awdit / Audit 2015/16

Llawer o bryder wedi ei godi gan Cynghorau Dref a Cymuned am y ffordd oedd yr archwiliad wedi ei wneud. Un Llais Cymru yn cynorthwyo gyda hyfforddiant yn y dyfodol. Swyddfa Archwiliad Cymru wedi cynghori y gallant nawr anfon anfoneb ar gyfer eu gwaith. / *Lot of concern has been raised by Town and Community Council about the way the audit was carried out. One Voice Wales will be assisting with future training. Welsh Audit Office has advised that they can now invoice for their work.*

11. Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Countryside Management – Himalayan Balsam - £78
- Apêl Eisteddfod Ynys Môn / *Anglesey National Eisteddfod appeal - £200*

Incwm / Income

- Praesept terfynol / *Final Precept 2016/17 - £1,716.67*

12. Gohebiaeth/Correspondence

- e-bost / *e-mail* – Countryside Management
- e-bost/*e-mail* – Cyngor Sir / *County Council*
- llythyr/*letter* – Arolygiaeth Cynllunio / *Planning Inspectorate*
- llythyr/*letter* – Cyngor Sir/ *County Council*

13. UFA/AOB:

13.1 Angen torri cloddiau yn Gorslwyd / *Need to cut the hedges in Gorslwyd*

13.2 Cyng. R Hughes - Pwyllgor y Neuadd wedi cyfarfod a'r Cyngor Sir, wedi cael estyniad o 6 mis er mwyn cael gwneud ceisiadau grantiau trwy Elusen Shell a Datblygu Gwledig. / *Clr. R Hughes – Village Hall Committee have met with the County Council, and have obtained a 6 months extension in order to apply for a Shell Charity and Rural Development grants.*

- 13.3 Dwr Cymru yn trio cysylltu â pherchennog Tan Fynwent er mwyn cael cynnal arolygon ynghylch materion carthffosiaeth leol. / *Welsh Water are trying to contact the owner of Tan Fynwent in order to carry out surveys regarding the local sewerage issues.*
- 13.4 Banc NatWest wedi cyhoeddi bydd yn cau 3 ganghennau dros yr Ynys o fis Mai 2017 / *NatWest Bank has announced it will shut 3 branches across the Island from May 2017.*
- 13.5 Angen trafod praesept 2017/18 yn ein cyfarfod nesaf / *Need to discuss the 2017/18 precept at our next meeting*
- 13.6 Dderbyniwyd gwahardd dros dro o draffig o'r gyffordd gyferbyn a Bryn Sulian heibio'r hen Ysgol o 16/01/17 o ddim mwy na 3 mis er mwyn gosod cysylltiad dwr newydd / *Received temporary prohibition of through traffic from the junction opposite Bryn Sulian past the old school from 16/01/17 of not more than 3 months in order to install a new water connection*
- 13.7 Hanner Marathon 5/03/17 - bwriad cau ffyrdd dros dro, Pont Borth, ffordd Mona a'r A545 o Borthaethwy i Biwmaris / *Half Marathon 5/03/17 - proposed temporary road closure, Menai Bridge, Mona road and A545 Menai Bridge to Beaumaris.*
- 13.8 Derbyniwyd cais am rodd gan FH Thomas. Yn anffodus ni allant gyfrannu oherwydd mae ty hwnt i ein Rheolau Ariannol / *Received a request for a donation from FH Thomas. Unfortunately we are unable to agree to the request as it does not abide with our Financial Regulations*
- 13.9 Cyng. M Williams - Lon Hafoty - cododd pryder am gyflwr y ffordd pen mae'n rhewllyd oherwydd bod y Cyngor Sir wedi gwrthod graeanu ffordd. Cyng. Carwyn Jones wedi codi'r mater gydag Adran Priffyrdd llawer gwaith. Clerc i gysylltu â Rhun ap Iorwerth a Albert Owen / *Hafoty Road - raised concern of the condition of the road because the County Council have refused to grit when it's frosty. Clr. Carwyn Jones has consulted with the Highways department many times. Clerk to consult with Rhun ap Iorwerth and Albert Owen.*
- 13.10 Lon Hafoty - mae mannau pasio ar y ffordd mewn cyflwr drwg, enwedig ger Tegfryn a Tŷ Foty / *Hafoty Road - passing places on this road are in poor condition, especially by Tegfryn and Hafodty House.*
- 13.11 Cyng. M Williams - coeden yn iard yr Ysgol ger Arfon House ar fin syrthio. Clerc i ymgynghori ac Adran Eiddo / *Clr. M Williams - tree in the school playground by Arfon House is about to fall. Clerk to consult with the Property Department.*
- 13.12 Parcio ger Ponc y Felin yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd / *Car parking by Ponc y Felin is dangerous to road users.*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.05 o'r gloch. Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 18/01/17 am 7.00 yn Capel Peniel
There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9.05pm. Next meeting to be held on 18/01/17 at 7.00pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad